YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF: 22/2018
DYDDIAD CYHOEDDI: 19/04/2016

# Archwilio'r broses o ddiddymu Cymunedau yn Gyntaf yn raddol ar sail profiadau Cyrff Cyflawni Arweiniol

**Crynodeb Gweithredol**

## 1. Nodau a Methodoleg yr Ymchwil

1.1 Ym mis Medi 2017 gofynnodd tîm Pontio Cymunedau yn Gyntaf i Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru wneud darn o waith yn archwilio profiadau pobl o'r broses o ddiddymu Cymunedau yn Gyntaf yn raddol o safbwynt sampl o gynrychiolwyr Cyrff Cyflawni Arweiniol.

1.2 Roedd dau nod i'r ymchwil. Yn gyntaf, deall profiadau cynrychiolwyr y Cyrff Cyflawni Arweiniol yn nhermau cynnal a diddymu'r rhaglen yn raddol a hefyd y prif wersi a ddysgwyd o'r profiadau hyn.

1.3 Defnyddiwyd fformat lled-strwythuredig i sicrhau ein bod yn cael adborth trylwyr a manwl gan gynrychiolwyr y Cyrff Cyflawni Arweiniol, ond gan ganiatáu i'r rheiny a gafodd eu cyfweld ymhelaethu ar eu hatebion a'r pwyntiau a wnaed. O ganlyniad i gyfyngiadau o ran adnoddau, cynhaliwyd 8 cyfweliad gydag arweinwyr Cyrff Cyflawni Arweiniol (allan o uchafswm posibl o 18 o Gyrff Cyflawni Arweiniol yng Nghymru).

## 2. Prif ganfyddiadau

### Strwythur Cymunedau yn Gyntaf

2.1 Ymhlith y prif themâu a ddaeth i'r amlwg mewn perthynas â strwythur Cymunedau yn Gyntaf roedd pwysigrwydd cadw pethau'n syml ac yn gyson yn nhermau'r strwythurau adrodd a rheoli ar gyfer y rhaglen. Crybwyllwyd y nodweddion hyn ar y cyd â chynnal mewnbwn cymunedol ystyrlon cyhyd ag y bo'n bosibl o fewn strwythur y rhaglen.

2.2 Trafodwyd manteision ac anfanteision y strwythur cyn 2012-13 a'r newid i weithio fel Cyrff Cyflawni Arweiniol a chlystyrau ar ôl 2012-13 yn fanwl er bod y trefniadau sefydliadol presennol yn amrywio ar draws y Cyrff Cyflawni Arweiniol a gafodd eu cyfweld.

2.3 Nodwyd bod cydweithio ar draws clystyrau yn haws yn sgil yr ailstrwythuro a bod y dulliau mesur canlyniadau yn golygu ei bod yn haws olrhain cynnydd. Fodd bynnag, teimlwyd mai un o'r prif faterion oedd y newid canfyddedig o ran pwyslais y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar ôl gwaith ailstrwythuro 2012, a oedd yn golygu ei bod yn anodd, yn ôl rhai o'r rheiny a gafodd eu cyfweld, cael cydbwysedd rhwng canllawiau rhagnodol a chaniatáu i gymunedau lunio eu prosiectau a'u rhaglenni eu hunain.

### Gweithio mewn partneriaeth

2.4 Roedd llawer o gynrychiolwyr y Cyrff Cyflawni Arweiniol yn teimlo bod cyfathrebu cyson a ffocws ar gael nodau a blaenoriaethau ar y cyd yn bwysig er mwyn gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol.

2.5 Teimlwyd yn gyffredinol bod gweithio fel Cyrff Cyflawni Arweiniol / mewn clystyrau yn agwedd gadarnhaol ar ailstrwythuro Cymunedau yn Gyntaf yn 2012 ac yn ddefnyddiol wrth feithrin gweithio mewn partneriaeth. Fodd bynnag, canfuwyd bod cyfranogiad y gymuned yn nodwedd lai amlwg o'r rhaglen mewn perthynas â phennu cyfeiriad strategol ar ôl 2012.

### Ymgysylltu â'r gymuned

2.6 Ymchwiliodd y cyfweliadau i ddau fath o ymgysylltu â'r gymuned. Yn gyntaf, yn nhermau'r gymuned yn helpu i bennu cyfeiriad lefel strategol prosiectau a rhaglenni, mae hyn yn cynnwys y ffordd y gellid annog y gymuned i helpu i lunio a chynllunio pa wasanaethau a ddarperir. Ac yn ail, cyfranogiad unigolion mewn gwasanaethau – y ffyrdd y gall prosiectau hwyluso mynediad at wasanaethau i bobl leol.

2.7 Ymhlith y ffactorau a oedd ynghlwm wrth sicrhau ymgysylltiad strategol roedd pwysigrwydd cyfathrebu'n gynnar a hysbysu'r gymuned am y cyfleoedd i gymryd rhan, ond nododd y rheiny a gafodd eu cyfweld hefyd bwysigrwydd rheoli disgwyliadau o'r hyn y gallai'r Rhaglen ei wneud/ei gyflawni. Adroddodd y rheiny a gafodd eu cyfweld hefyd yr angen i barchu lefelau gwahanol o ymgysylltu ac i ddiwallu gofynion pobl o ran y lefel y maent yn dymuno bod yn rhan o'r rhaglen. Gallai hyn gynnwys cynllunio strategol ar lefel uchel neu wirfoddoli ar lefel ymarferol.

2.8 Llwyddwyd i sicrhau cyfranogiad trigolion lleol yn y Rhaglen mewn amrywiaeth o ffyrdd, ond nodwyd bod codi ymwybyddiaeth a phresenoldeb gweledol a hygyrch mewn cymunedau ill dau yn bwysig. Roedd hyn yn ogystal ag osgoi gwneud i bobl deimlo eu bod yn cael eu "targedu" yn benodol gan ymyriadau, a gwrando ar adborth trigolion ynghylch y gwasanaethau yr oeddent yn eu cael.

## Rheoli'r broses o Ddiddymu Cymunedau yn Gyntaf yn Raddol

2.9 Rhoddodd cynrychiolwyr y Cyrff Cyflawni Arweiniol adborth ar sut roeddent yn cynllunio dyfodol gwasanaethau. Adroddodd yr ymatebwyr amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys defnyddio ffurfiau amrywiol o ddata, ymgynghoriadau â sefydliadau partner ac aelodau o'r gymuned leol i bennu'r bylchau tebygol yn y ddarpariaeth ar ôl i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ddod i ben.

2.10 Yn gyffredinol, roedd llawer o'r rheiny a gafodd eu cyfweld yn teimlo bod ymgysylltu â'r gymuned ar lefel strategol yn elfen bwysig o'u rhaglen ac roeddent yn ceisio sicrhau cyfranogiad y gymuned wrth bennu cyfeiriad y rhaglen gymaint â phosibl o fewn cylch gwaith y strwythur llywodraethu. Nododd y cyfweliadau hefyd brofiadau o sicrhau ymgysylltiad ar lefel unigol mewn amrywiaeth o ffyrdd.

2.11 Crybwyllwyd nifer o ddulliau wrth drafod sut mae cynrychiolwyr y Cyrff Cyflawni Arweiniol a'u timau ehangach wedi bod yn gwneud penderfyniadau ar ddyfodol gwasanaethau yn eu hardaloedd. Roedd rhai o'r rhain yn cynnwys defnyddio data ac ystyried dulliau mesur canlyniadau. Ymhlith y dulliau eraill roedd ymgyngoriadau â sefydliadau partner ac aelodau o'r gymuned leol er mwyn deall pa effaith y gallai cau gwasanaethau ei chael ar y boblogaeth leol.

2.12 Cafodd effaith cau gwasanaethau ei hystyried gan y Cyrff Cyflawni Arweiniol ac adroddodd rhai eu bod wedi gweithio â sefydliadau allanol neu sefydliadau'r trydydd sector wrth ystyried dyfodol gwasanaethau, yn benodol i gwmpasu unrhyw fylchau posibl.

## Cymorth gan Lywodraeth Cymru i Ddiddymu Cymunedau yn Gyntaf yn Raddol

2.13 Cafodd Tîm Pontio Cymunedau yn Gyntaf adborth ffafriol mewn nifer o feysydd, yn fwyaf nodedig mewn perthynas â'i natur agored a hawddgar yn ogystal â'r ffaith eu bod wrth law i gynnig cymorth a chynorthwyo gydag ymholiadau.

2.14 Roedd y rhan fwyaf o'r rheiny a gafodd eu cyfweld yn teimlo bod y cyfarfodydd rhwydwaith gyda Chyrff Cyflawni Arweiniol eraill a'r cyfarfodydd rheolaidd bob chwe mis gyda'r tîm Pontio Cymunedau yn Gyntaf yn ddefnyddiol. Roeddent yn teimlo bod hyn yn rhoi cyfle iddynt rannu gwybodaeth a thrafod cynlluniau pontio a diddymu yn raddol gydag ardaloedd eraill yn ogystal â'r cyfle i ymdrin â phryderon mewn sefyllfa un-i-un gydag aelod o'r tîm Pontio.

2.15 Beirniadaeth a oedd yn dod i'r amlwg dro ar ôl tro oedd arafwch canfyddedig Llywodraeth Cymru wrth gyhoeddi canllawiau, boed ar gyfer cyllid y Gronfa Etifeddiaeth nei'r Grant Cyflogadwyedd (a elwir bellach yn rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a Mwy). Ym marn Cyrff Cyflawni Arweiniol, byddai wedi bod yn haws iddynt reoli'r broses pe bai'r holl ganllawiau perthnasol wedi cael eu cwblhau a'u cyhoeddi yn gynharach.

## 3. Casgliadau

3.1 Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar safbwyntiau sampl fach o wyth o gynrychiolwyr Cyrff Cyflawni Arweiniol (o blith 18 corff posibl). Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y wybodaeth ymarferol a gafwyd yn ystod cyfnod y Rhaglen yn cael ei chofnodi gyda'r bwriad o fod yn sail i fentrau eraill. Mae'r adborth hwn yn werthfawr ar gyfer dysgu gwersi o'r cyfnod o ddiddymu Cymunedau yn Gyntaf yn raddol.

3.2 Roedd yr adborth ar strwythur Cymunedau yn Gyntaf yn gymysg er gwaethaf y canfyddiad cyffredinol bod y strwythur Cyrff Cyflawni Arweiniol / Clwstwr yn ffordd effeithiol o gynnal y rhaglen. Roedd y farn ar strwythur Cymunedau yn Gyntaf a'r profiadau o weithio mewn partneriaeth yn gadarnhaol, ond roedd rhai yn teimlo bod cyfranogiad cymunedau wedi lleihau ar ôl gwaith ailstrwythuro 2012.

3.3 Y thema drosfwaol a oedd yn berthnasol i brofiadau'r rhan fwyaf o'r rheiny a gafodd eu cyfweld mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth oedd pwysigrwydd cyfathrebu. Darparodd y Cyrff Cyflawni Arweiniol enghreifftiau amrywiol sy'n dangos yr hyn a oedd, yn eu barn hwy, yn arwain at arferion llwyddiannus ac effeithiol wrth weithio mewn partneriaeth.

3.4 Drwy gydol cyfnod y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, datblygodd y Cyrff Cyflawni Arweiniol eu dealltwriaeth o ffyrdd o gynnwys cymunedau ar lefel strategol yn ogystal â phwysigrwydd meithrin ymddiriedaeth a chymryd camau bach i sicrhau bod unigolion yn ymgysylltu â'r rhaglen.

3.5 Mae Cyrff Cyflawni Arweiniol wedi defnyddio data ac ymgyngoriadau i ddatblygu eu dealltwriaeth o wasanaethau ar ôl Cymunedau yn Gyntaf ac mae llawer eisoes wedi datblygu partneriaethau â'r trydydd sector i geisio llenwi rhai bylchau yn y ddarpariaeth.

3.6 Roedd yr adborth ar y tîm Pontio Cymunedau yn Gyntaf yn gadarnhaol mewn sawl ffordd. Roedd llawer o gynrychiolwyr y Cyrff Cyflawni Arweiniol yn teimlo bod aelodau'r tîm yn hawdd siarad â hwy ac yn ceisio bod mor gymwynasgar â phosibl. Fodd bynnag, roedd y rheiny a gafodd eu cyfweld yn teimlo nad oedd amseriad cyhoeddi'r canllawiau terfynol a'r dyraniadau cyllido gan Lywodraeth Cymru, boed ar gyfer y Gronfa Etifeddiaeth neu'r Grant Cyflogadwyedd, yn ddelfrydol a bod hyn wedi achosi rhai anawsterau pan oedd angen i awdurdodau lleol gynllunio fisoedd ymlaen llaw.

3.7 Er bod canfyddiadau'r adroddiad hwn yn seiliedig ar sampl fach o gynrychiolwyr o'r Cyrff Cyflawni Arweiniol, mae'n darparu mewnwelediad defnyddiol o'u profiadau o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn ystod cyfnod y rhaglen yn ogystal â darparu adborth gwerthfawr i Lywodraeth Cymru ar y broses o ddiddymu'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn raddol a'r cymorth a gafwyd i wneud hyn ar lefel leol.

Adroddiad Ymchwil Llawn:  Morrison K a Griffiths L (2018). *Archwilio'r broses o ddiddymu Cymunedau yn Gyntaf yn raddol yn ôl profiadau Cyrff Cyflawni Arweiniol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 22/2018.
Ar gael yn: http://gov.wales/statistics-and-research/exploring-phasing-out-communities-first/?lang=cy

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:
Katrina Morrison
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: Katrina.Morrison@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78937-081-2